

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar y 19eg Mai, 2009, yn Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 19th May, 2009 at the Felin Sgwrsio , Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Sian Gwenllian (Cadeirydd/Chairperson)
Ken Brown(Is-Gadeirydd)
Lena Ashley; Iestyn Harris; Pat Jones;
Eluned Owen; Carolyn Pritchard;
Gerald Roberts; George Smith, Pat White;
Daniel Williams.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnwyd croeso i'r Cyfarfod.

A welcome was extended to the meeting.

2) Ymddiheuriadau/Apologies: Aled Jôb

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod 14eg Ebrill fel rhai cywir.

Minutes of the meeting held on 14th April were confirmed.

5) Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

Gwefan – Clerc a'r Cadeirydd yn gwneud ymholiadau ynghylch 'coasters' yn hyrwyddo'r wefan a'i cael yn barod erbyn Gwyl y Felin. Dangoswyd cynlluniau cychwynnol ac mae gobaith y bydd modd eu cael am ddim.

Traffic a Parcio - Angen codi arwydd tu allan i Londis i ddynodi man llwytho a dadlwytho yn unig. Hefyd arwydd 'aros hanner awr' tu allan i ochor Caernarfon o Stryd Bangor. Cadeirydd i gysylltu a Chyngor Gwynedd.

Sefyllfa parcio i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Syniadau pellach i'w ystyried. Efallai gwneud arolwg o faint o geir sy'n parcio ar Stryd Bangor/Uwch Menai a lle maent yn parcio fel arfer. Cyng Daniel Williams i ganfod manylion cyswllt perchennog Arvonnia er mwyn ceisio cyfarfod i drafod parcio yn yr iard gefn.

Canolfan Iechyd Rowen – dim newydd.

Carchar – Adroddwyd bod Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu. Ar y rhestr ceisiadau misol gan Gyngor Gwynedd roedd cais gan Bluefield ar gyfer datblygiad preswyl ar safle Ferodo. Roedd wedi ei restru dan Menai yn hytrach na dan Y Felinheli. Clerc i holi am fanlyon y cais a cyfarfod brys i'w drefnu os bydd angen.

Felin Sgwrsio – Penderfynwyd yn y Cyfarfod Blynyddol i barhau cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn y Felin Sgwrsio am y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Cynghorydd Lena Ashley ei bod yn cynnig hyn er mwyn i'r cyhoedd weld y cyfarfodydd gan obeithio y hyddai rhai yn dod mewn i wrando ar y trafod. Hefyd gan fod cynllun gwella'r Neuadd am olygu cau y Neuadd am gyfnod flwyddyn nesaf.

Arddangosfa Gwyl y Felin – Adroddwyd fod Cyng Daniel Williams yn casglu lluniau o dan bennawdau pendol.

Felin Daclus – Adroddwyd bod y diwrnod noddedig ar gyfer casglu sbwriel wedi bod yn llwyddiannus dros ben a bod rhagor o waith ar y gweill gan y grwp.

Rhaglen Blitz – Gwaith paentio railings ar waelod Brynffynnon ddim wedi ei gwblhau na'r fainc ar ben stepia Cei. Bun newydd wedi ei osod ar Stryd Bangor. Y Cynghorydd i holi eto beth sy'n digwydd.

Tai Fforddiadwy – Mae tir ar gael ger Y Wern ar gyfer tai fforddiadwy ac mae'r Cynghorydd yn gwthio'r Cyngor Sir i weithredu ar hyn.

Pwyllgor Rheoli – Cafwyd adroddiad ar y sefyllfa presennol ynghlyn a chynlluniau gwella'r Neuadd Goffa gan Cyng Iestyn Harris, Cadeirydd y Pwyllgor. Codwyd matter aelodaeth o'r pwyllgor yma a gofynwyd a ddylai aelodau allanol fod yn aelodau. Eglurwyd mai pwrpas sefydlu'r pwyllgor oedd i sicrhau grantiau ar gyfer y neuadd ac mae mater i'w godi yn y pwyllgor ei hun yw cyfethol aelodau newydd.

WEB SITE – The Clerk and Chairman are enquiring regarding the 'coasters' to promote the web site and to try make them available for the Felin Festival.

TRAFFIC AND PARKING – Loading and Unloading signs and a bus stop sign is required on Bangor Street outside Londis and the Vic. Chairman to contact Gwynedd Council.

Parking problems to be discussed at the next meeting. Further suggestions to be discussed and possibly a survey undertaken of cars parked on Bangor Street and where vehicles are parked when there is no space available on Bangor Street.

ROWEN MEDICAL CENTRE – nothing to report.

PRISON – Reported that a Project Board has now been established.

FELIN SGWRSIO – It was decided at the Annual Meeting that meetings of the Community Council for the next twelve months will be held at the Felin Sgwrsio.

GWYL Y FELIN EXHIBITION reported that materials for the exhibition were not forthcoming and the Councillors were encouraged to make an effort in order to promote a worthwhile exhibition.

FELIN DACLUS – A very successful sponsored rubbish collection day had been held

BLITZ PROGRAMME – the pavement on Bangor Street has not received attention, neither has the bench at the top of the steps leading to the quay been painted.

AFFORDABLE HOUSING – Land at Tanymaes is available for this purpose and Gwynedd Council are to be pushed to initiate this project.

HALL MANAGEMENT COMMITTEE – a report regarding the present situation regarding the hall improvement plans was received from Cllr Iestyn Harris, Chairman of the Committee.

The question of the membership of this committee was raised and it was asked whether or not it was appropriate to nominate an outside member to serve as a committee member. It was explained that this committee was established in order to secure grants for the hall improvement plan and that at this stage it was not considered necessary for external membership.

6) Cyfraniadau / Donations

Penderfynwyd caniatáu cyfraniadau fel a ganlyn / Decided to award as follows:

Y Goriad	£100
Grwp Bywiog Y Felinheli	£150
Gwyl y Felin	£500
Clwb Peldroed Ieuenctid	£400
Cylch Meithrin Y Felinheli	£200
Ras Hwyllo Y Felinheli	£150
Cymdeithas Hanes Y Felinheli	£100

Yn ogystal a hyn, mae taliad blynyddol o £500 i Eglwys Santes Mair, Llanfairisgaer fel cyfraniad tuag at cadw'r fynwent yn daclus . Nid oedd rhai cymdeithasau sy'n arfer holi am arian wedi cyflwyno cais y tro ma.

In addition, the annual payment of £500 to St. Mary's Church, Llanfairisgaer, as a contribution to the up-keep of the Church cemetery.

7) Adroddiad Is-Bwyllgor Y Neuadd / Report of Hall Sub-Committee

Dim adroddiad – No report

8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd gwariant Mis Ebrill. Cadarnhawyd bod Cyngorwyr Iestyn Harris a Carolyn Pritchard (archwilwyr cyfrifon y Cyngor) wedi archwilio'r cyfrifon ac wedi arwyddo datganiad eu bod yn gywir. Bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Archwiliwr Mewnol.

Payments for the month of April were confirmed. Confirmed that Cllrs Iestyn Harris and Carolyn Pritchard (Council account auditors) had inspected the accounts and signed a declaration as to their correctness. The accounts will now be presented to the Internal Auditor.

9) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondence received during the month were noted.

Cyngor Gwynedd – Rhybudd o Apêl – Bron Menai – Penderfynwyd bod sylwadau blaenorol yn dal yn ddilys ac felly i'w ystyried yn yr apêl. Clerc i'w hanfon i'r Arolygydd.

Gwynedd Council – Notice of Appeal – Bron Menai – Decided that previous observations were still valid and should be considered during the appeal process.

Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol / Society of Local Council Clerks
Cynhadledd Cymru – Conference for Wales

Penderfynwyd cefnogi'r Clerc i fynychu'r gynhadledd ar gost y Cyngor o £49.
Decided to support the Clerk's attendance at the Conference at a cost to the Council of £49.

Llythyr Meirion Wyn Roscoe yn gwneud cais i ymuno a'r Cyngor Cymuned.
Letter from Meirion Wyn Roscoe applying to become a member of the Community Council.

Mae un set wag ar y Cyngor a derbyniwyd y llythyr yn unfrydol i wahodd Mr Meirion Wyn Roscoe i gyfarfod nesaf o'r Cyngor ar y 9fed Mehefin.

As there is one vacant seat on the Council the letter was unanimously accepted and Mr Meirion Wyn Roscoe to be invited to attend the next Community Council meeting on 9th June.

10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Adroddodd Cyng Pat White bod trefniadau mewn llaw i gynnal gwasanaeth i gofio 65 mlynedd ar ol y Normany Landing. Bydd hyn yn cymeryd lle am 2.0 o'r gloch ar y 6ed Mehefin ger Cloc Coffa, Y Felinheli. Bydd lluniaeth ar gael ar ol y gwasanaeth.

Cllr Pat White reported that arrangements are in hand to conduct a short service to remember 65 years after the Normandy Landing. This will take place at 2.00 pm on 6th June by the Memorial Clock. Refreshments will be available following the service.

11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Ni fydd Cyng Sian Gwenllian yn cymeryd unrhyw ran mewn trafodaeth ar geisiadau cynllunio.

Councillor Sian Gwenllian will take no part in discussions on planning matters.

- 1) Hen Adeiladau Stesion / Old Station Buildings, Y Felinheli – Cais llawn ar gyfer codi ty par deulawr / Full application for the erection of a pair of two storey semi-detached dwellings – **DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION.**
- 2) 11 Ffordd Caernarfon / Caernarfon Road, Y Felinheli. Adeiladu bloc o 4 uned breswyl a manau parcio / Erection of a block of 4 residential units with car parking accommodation. **GWRTHWYNEBIAD: Ddim yn cyfarfod gofynion lleol; Allan o gymeriad yr ardal; Parcio annigonol; Yn tarddu ar harddwch gweledol yr ardal. Os caniateir y cais, rhaid gosod amod, sef cymal gofynion lleol. Cytundeb eisioes bod 3 metr o'r Lon Las yn cael ei gadw.**
OBJECTION: Does not meet local needs; Out of character for location; inadequate parking; Affects the visual amenity of the area. If granted, Local Need Clause to be imposed. Agreed previously that 3 metres of Lon Las is preserved.
- 3) Rhosyr, Y Felinheli – Addasu a Ehangu / Alterations and extensions – **DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION.**
- 4) 95 Stryd Bangor / Bangor Street, Y Felinheli – Dymchwel yr estyniad cefn, ail godi estyniad newydd a phorth yn y tu blaen / Demolish rear extension. Re-erect a new extension and new porch at the front.
DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION
- 5) Tir ger / Land near Ty Hanner Ffordd, Stryd Bangor / Half Way House, Bangor Street, Y Felinheli – Adeiladu ty a mynedfa (Cynllun Diwygiedig i'r hyn a

ganiatawyd o dan gais Rhif C00A/0180/20/LL / Erection of a dwelling and access
(Amended scheme to that approved under application ref no C00A/180/20/LL)
DIM GWRTHYNEBIAD - NO OBJECTION

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Adroddwyd bod cwyn wedi ei dderbyn bod y defaid wedi dianc o'r man pori ac wedi gwneud dipyn o lanast ar y fynwent. Mae'r defaid wedi eu symud erbyn hyn a bydd trefniadau yn cael eu gwneud i gryfhau'r ffensio. Penderfynwyd rhoi gair o eglurhad ac ymddiheuriad yn y papur newydd i unrhyw berson oedd wedi dioddef blinder o achos y digwyddiad.

Codwyd y cwestiwn o feinciau er cof ac eglurwyd bod mainc er cof am y diweddar Gynghorydd Emyr Roberts wedi ei benderfynu am bod Emyr yn Gynghorydd ar y pryd. Dywedwyd mai dyma'r unig dro i'r Cyngor golli Cynghorydd oedd yn aelod o'r Cyngor. Cytunwyd comisiynu rhestr o bobl sydd wedi bod yn weithgar yn y pentref a'i drosglwyddo i'r Pwyllgor Rheoli Neuadd i ystyried ffyrdd priodol o goffhau. Atgoffwyd y Cyngor fod penderfyniad wedi ei wneud i lunio rhestr o blaciau hanesyddol.

Reported that a complaint had been received that sheep had escaped from the pasture land and had caused a mess of the cemetery. The sheep have by now been moved and arrangements will be made to strengthen the fencing. Agreed that a word by way of explanation and apologies to any person who had been distressed by this event should be published.

The matter of benches in memory was raised and it was explained that the bench in memory of the late Emyr Roberts was decided on the fact that he was a serving member of the Council on his demise. It was said that this was the only occasion when a serving member of the Council had passed away. It was decided to commission a list of names of people who had been active in community life and to make this available to the Hall Management Committee to consider an appropriate way to remember. The Council were reminded that a decision had been made to draw up a list of plaques to mark places of historical interest.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Yn dilyn cwyn blaenorol bod car wedi ei barcio yn anghyffreithlon ar y maes parcio ac yn edrych yn debyg ei fod wedi ei ddympio yno, cafwyd ymateb oddiwrth y DVLA bod eu llythyr wedi ei anfon yn ol gyda nodyn yn dweud bod y perchennog ddim bellach yn y cyfeiriad a'i fod wedi mynd ffwrdd. Bydd trefniad gyda Adran Amgylchedd a'r Heddlu i wared o'r car yn ystod cyfnod o 14 diwrnod. Y Clerc hefyd i gyhoeddi yn y papur newydd y camau bwriedir eu cymeryd.

Casgen Plastic gyda disgrifiad allanol o 'Pine Disinfectant' wedi ei dympio'n anghyfreithlon yn y maes parcio. Clerc i gysylltu ac Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod canclwm siapaneidd yn broblem yng ngefn y tai ger Lon Las ac ychydig ar y lon Las ei hun lle mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Hefyd bod tyfiant yn gyffredinol yn cau'r llwybr. Gweithred: Clerc i gysylltu a chontractor i ddelio a'r canclwm siapaneidd ac Chyngor Gwynedd ynghlyn a'r gor dyfiant.

Following on from a complaint of a motor car illegally parked in the car park and appeared to have been dumped there, the DVLA reported that a letter sent to the registered owner had been returned – no longer at the address-gone away. Arrangements have been made for the Environment Dept and the police to have the car taken away during a period of 14 days. The Clerk to publish a note in the newspaper explaining the steps to be taken.

Plastic Barrel labelled 'Pine Disinfectant' illegally dumped on the car park – Clerk to contact Environmental Department.

Reported that the Japanese knotweed was a problem at the houses backing onto the part of Lon Las for which the Council have responsibility and that overgrowth was now narrowing the pathway. Action – Clerk to contact the Contractor in respect of the knotweed and Gwynedd Council in respect of the overgrowth.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – Cyng George Smith i gario mlaen ar gwaith yn sgil yr arolwg. Penderfynwyd fod angen gwaith brys ar stepiau Dinas.

Cysgodfannau - adroddwyd bod cysgodfan Tafarngrisiau wedi cael sylw gan Cyng George Smith yn ystod diwrnod noddedig hel sbwriel. Diolchwyd iddo am ei waith.

Cysgodfan ger Londis – Cyng Daniel Williams am lanhau graffiti

Cysgodfan ar waelod hen asfle Modurdy menai – angen sylw. Clerc i atgoffa'r contractwr o'i ddyletswyddau i lanhau cysgodfannau.

Cysgodfan Half Way - Pris am paentio'r cysgodfan wedi ei dderbyn. Awgrymwyd holi am brisiau eraill gan fod hwn yn uchel. Clerc i weithredu.

Footpaths – Cllr George Smith to continue with this work.

Bus Shelters – Reported that the bus shelter in Tafarngrisiau had been cleaned by Cllr George Smith during the sponsored rubbish collection day. He was thanked for his work.

Shelter opposite Londis – Cllr Daniel Williams to treat the graffiti.

Half Way Shelter – Estimate for the repainting work had been received. Suggested that the Clerk obtain a competitive estimate. Clerk to action

15) ADOLYGU / REVIEW

Penderfynwyd nad oedd angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd i'r cyhoeddiadau canlynol- Decided that there was no need at this moment to amend the following publications

Llawlyfr – Rheolau Sefydlog / Handbook – Standing Orders

Aseidiadau risg / Risk Assessments

Cynllun Rhyddid Gwybodaeth / Freedom of Information Plan

Cyfarwyddwyd Cyng Daniel Williams i adolygu Aseidiadau Risg a Cynllun Rhyddid Gwybodaeth yn fanwl erbyn cyfarfod blynyddol 2010

Cllr Daniel Williams was instructed to review the Risk Assessments and Freedom of Information Plan by the 2010 annual meeting.

16) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Cyflwynwyd adroddiad ar bapur ac ychwanegwyd y canlynol ar lafar :

Parcio Bryn y Waun yn achosi problemau. Dangoswyd lluniau. Cynghorydd i gysylltu gyda Priffyrdd.

Gardd Fon – Adroddwyd bod cwyn wedi ei dderbyn bod ceir yn goryrru rownd y gornel ar waelod yr allt. Gall hyn for yn berygl i bobl a phlant sy'n croesi'r ffordd tuag at y toiledau a gardd Gardd Fon. Cadeirydd i holi am y posibilrwydd o lwyfannau tawelu traffig cyn gwaelod yr allt.

A written report was received and a verbal report was received on the following: Parking Bryn y Waun causing problems. Photographs were shown. Councillor to consult with Highways

Step at Uwch Menai – now removed

Gardd Fon – complaint regarding vehicles speeding round the corner at the bottom of the hill. This could be dangerous for adults and children crossing the road either to the toilets / beer garden. Chairman to enquire as to the possibility

of installing traffic calming platforms.

17) **Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter**

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 9.40 yh
No other matters to discuss and the Meeting finished at 9.40.p.m.

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Felin Sgwrsio am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Mehefin
9fed

The next meeting will be held at the Felin Sgwrsio at 7.00 p.m. on Tuesday 9th
June, 2009